**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher Gorffennaf 31ain, 2024 am 7.15 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorwyr** | J. Tandy<br>D. Hopkins | Mrs C. R. Thomas<br>R. Barnes | Mrs A. J. Evans<br>E. Nicholas, |
| **Yn mynychu arlein:** | D. Thomas | K. D. L .Davies | |
| **Ymddiheuriadau:** | E. Davies | P.H. Roberts | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR Orffennaf 31ain, 2024, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN**

**494.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i'w **TRAFOD** ym mis Gorffennaf;

- **PL/07861**

Tŷ Plas Gwyn, Heol Plas Gwyn, Penygroes, Llanelli, SA14 7RY

Tynnu i ffwrdd y to dur presennol a'r waliau cyd-gloi o fframiau pren, ymestyn slab presennol y garej ac adeiladu garej dwbl o flociau; bydd y to o lechi, i gydfynd â chynllun y tŷ presennol, a gosodir cladin llorweddol ar y waliau, sef Marley Cedral neu system debyg gymeradwy. Bydd y slab ehanach yn caniatau parcio i ddau gerbyd felly bydd 2 ddrws caed roler yn cael eu gosod ar y blaenlun. Bydd gwagle'r toi yn cynnwys llawr dormer yn y cefn a fydd yn darparu gofod storio ac adnodd campfa gartref ar gyfer yr aelwyd, y cyfan i'w gyrchu drwy stâr allanol.

**Sylwadau**: **Nid oedd unrhyw sylwadau.**

- **PL/07859**

Tŷ Plas Gwyn, Heol Plas Gwyn Road, Penygroes, Llanelli, SA14 7RY

Estyniad dau lawr i'r ystlyslun a rhan o flaen yr adeilad, newidiadau i orffeniad y waliau blaenolwg presennol a gosod un ffenestr newydd yn y blaen ar y llawr cyntaf.

**Sylwadau**: **Nid oedd unrhyw sylwadau.**

- **PL/07977**

Tir ar ochr ddeheuol Heol Plas-Gwyn, rhwng pentrefi Caerbryn a Phenygroes, SA14 7RY

Gollwng Amodau 4 a 5 o PL/05056 (LEMP).

**Sylwadau: Roedd y Cynghorwyr wedi holi paham bod yr Awdurdod yn dal i aros am un adroddiad? A byddem yn cynghori bod angen brysio i gychwyn y prosiect, ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu ynghylch y diffyg draeniad a achosodd y problemau gyda'r prosiect cyntaf.**

- **PL/07748**

15 Llwynybryn, Rhydaman, SA18 2ES

Diwygiad Ansylweddol i PL/07243 (Estyniad i dŷ mas presennol er mwyn darparu anecs yn cynnwys ystafell wely, ystafell fyw/ ystafell fwyta, cegin ac ystafell ymolchi).

**Sylwadau**: **Nid oedd unrhyw sylwadau.**

**495.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.26 yh